



Ysgol Pentreuchaf

44. Polisi Cynllunio Ysgol Gyfan

Nod

Cynllunio'n effeithiol i sicrhau sylw priodol i bob elfen o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac i ymateb i anghenion y disgyblion. Ceisio gwneud hyn mewn ffordd hylaw, hawdd i'w gofnodi a'i ddefnyddio.

Canllawiau

1. Bydd yr athrawon yn defnyddio'r wybodaeth Tymor Hir o'r Cynlluniau Gwaith i'r Cynllunio Tymor Canolig. Bydd y Cynllunio Tymor Hir yn nodi Ystod, Sgiliau a Dilynant a Pharhad.
2. Bydd sgiliau pynciol, Fframwaith Sgiliau, Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd, Cynhwysedd Digidol a gweithgareddau yn cael eu nodi yn y Cynllunio Tymor Canolig.
3. Defnyddir y Cynllunio Tymor Canolig i greu Cynlluniau Tymor Byr.
4. Caiff y deilliannau dysgu, gweithgareddau a'r gwahaniaethu eu nodi yn y Cynllunio Tymor Byr. Bydd Meini Prawf Llwyddiant yn cael eu gosod (a'u harddangos yn glir) ar ddechrau tasg ar ôl eu trafod a dod i benderfyniadau ar y cyd gyda'
5. Bydd y Cynllunio Tymor Canolig yn cael ei roi i'r pennaeth ddechrau pob tymor.
6. Bydd y pennaeth yn edrych ar y cynllunio Tymor Byr yn rheolaidd.
7. Ar ddiwedd pob tymor, bydd yr athrawon yn unodi unrhyw agwedd sydd heb gael sylw dyledus (os oes) ac yn defnyddio eu cofnodion i arfarnu ac addasu.
8. Bydd y cynlluniau ar gael i athrawon llanw pe byddai eu hangen.
9. Oherwydd ein bod yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill grŵp Ysgol i Ysgol, bydd cyfleoedd i athrawon gynllunio ar y cyd. Golyga hyn, y bydd athrawon yn medru cyd-gynllunio i ddsbarthiadau o'r un oedran. Bydd hyn yn sicr o wella'r cynllunio a lleihau'r baich ar unigolion.

Casgliad

Trwy gynllunio manwl, ceisiwn sicrhau fod y gwaith yn cyfateb i allu'r disgyblion, eu profiadau a'u diddordebau, ac ar yr un pryd yn sicrhau fod dilynant a sylw chydbwysedd drwy bob Cyfnod Allweddol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____